

# Ymgynghoriad ar Uno'r Colegau Eich Cyfle i Leisio Barn

Uniad arfaethedig rhwng Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai

## College Merger Consultation Your Chance to Comment

Proposed merger between Coleg Llandrillo Cymru & Coleg Menai



# Cynnwys

<b>04</b>	Rhagair gan y Cadeiryddion
<b>06</b>	Arolwg a Chyd-destun
<b>06</b>	Proffiliau'r Partneriaid sy'n Uno
<b>08</b>	Y Strwythur Newydd - Grŵp Llandrillo-Menai
<b>08</b>	Y Weledigaeth a'r Sail Resymegol
<b>10</b>	Manteision Uno
<b>12</b>	Nodweddion y Sefydliad
<b>18</b>	Y Deg Ymrwymiad
<b>18</b>	Y Broses Ymgynghori
<b>18</b>	Sut i Ymateb
<b>21</b>	Ffurflen Ymateb
<b>23</b>	Manylion Cyswllt

Mae Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai yn herio pob ffurf ar wahaniaethu, ac yn cadw golwg ar ba mor effeithiol yw eu polisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Dymuna'r Byrddau Llywodraethu a'r staff sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r naill Goleg neu'r llall yn cael eu trin yn deg. Bydd y Colegau'n falch o ddarparu cyngor arbenigol a chefnogaeth er mwyn hwyluso pethau i ddysgwyr ac ymwelwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledd. Os bwriadwch ymweld ag un o safleoedd y Colegau, a bod gennych ofynion arbennig, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cefnogi Dysgu yn eich dewis Goleg cyn eich ymweliad, os gwelwch yn dda.

Mae'r colegau wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i'w holl ddysgwyr, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid eraill.

Mae'r ddau Goleg yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg a gymeradwywyd, ac yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

# Contents

<b>05</b>	Foreword by the Chairs
<b>07</b>	Overview & Context
<b>07</b>	Profiles of the Merger Partners
<b>09</b>	The New Structure - Grŵp Llandrillo-Menai
<b>09</b>	Vision & Rationale
<b>11</b>	Benefits of Merger
<b>13</b>	Characteristics of the Organisation
<b>19</b>	The Ten Commitments
<b>19</b>	Consultation Process
<b>19</b>	How to Respond
<b>22</b>	Response Form
<b>23</b>	Contact Details

Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Menai challenge discrimination in all its forms and monitor the effectiveness of their Equality & Diversity policies. The Boards of Governors and staff wish to ensure that all those who are part of either College are fairly treated. The Colleges are pleased to provide specialist advice and support to make it easier for students and visitors with learning difficulties and/or disabilities. If you intend to come to any of the College sites and you have special requirements, please contact the Learning Support Co-ordinator or Reception staff at the College of your choice prior to your visit.

The Colleges are committed to providing equal opportunities to all their learners, customers and other stakeholders.

Both Colleges operate approved Welsh Language Schemes and welcome correspondence in Welsh and English.

# Rhagair gan y Cadeiryddion

Lluniwyd y ddogfen ymgynghorol hon ar y cyd gan Goleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai, fel rhan o broses ymgynghori ehangach a fydd yn rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid roi sylwadau ar yr uniad arfaethedig rhwng y ddau goleg.

Mae'r ddau gorff llywodraethu wedi derbyn y cysyniad o uniad o fewn strwythur Grŵp â brwdfrydedd, gan y bydd yn diogelu hunaniaeth dau goleg cryf a llwyddiannus a hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd a fydd yn dod â manteision sylweddol i'r staff, y dysgwyr a chymunedau ledled Canolbarth a Gogledd-Orllewin Cymru.

Bydd creu isadeiledd addysgiadol newydd a chryfach yn galluogi'r colegau o fewn y Grŵp i ehangu cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn eu hardaloedd. Y weledigaeth yw creu endid sy'n adeiladu ar gryfderau'r partneriaid mewn ffordd greadigol, arloesol a hyblyg, sydd hefyd yn ymateb i anghenion yr economi ranbarthol a dyheadau unigolion a chymunedau.

Bydd angen uno'r ddau goleg, Coleg Llandrillo a Choleg Menai, yn ffurfiol er mwyn sefydlu Grŵp Llandrillo-Menai. Deunaw mis yn ôl fe unodd Coleg Llandrillo gyda Choleg Meirion-Dwyfor a bwriad y Grŵp newydd yw trosglwyddo ei wasanaethau i'r cymunedau a wasanaethir drwy gadw enwau'r tri choleg. Drwy wneud hynny fe gedwir hunaniaeth leol tra'n elwa o wneud arbedion wrth fod yn sefydliad mwy ar gyfer datblygu gwasanaethau corfforaethol a strwythurau unedig. Y bwriad yw adeiladu ar gryfderau'r holl bartneriaid a fydd o fudd i'r ardal leol a'r dysgwyr sy'n mynychu'r colegau o fewn y Grŵp.

Cred y ddwy Gorfforaeth y byddai coleg unedig, felly, yn darparu addysg ôl-16 o'r radd flaenaf i ddarparu ddygwyr ledled Canolbarth a Gogledd-Orllewin Cymru.

## Y weledigaeth yw:

**Bod yn ddarparwr addysgu a dysgu rhagorol**

**Bod yn arloesol fel darparwr addysg ddwyieithog**

**Bod yn yrrwr economaidd i'r economi leol**

**Bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Uwch, ysgolion a chymunedau lleol**

Er mwyn i ni allu ystyried barn pobl, ac ymgynghori mewn modd agored a thryloyw, rydym yn awr yn gwahodd eich sylwadau a'ch barn ar yr uniad arfaethedig, nodedig hwn. Caiff holl sylwadau budd-ddeiliaid eu hystyried yn ofalus, yn y gobaith y byddant o gymorth i lywio polisi'r sefydliad unedig i'r dyfodol.

Defnyddiwch y ffurflen a ddarparwyd, os gwelwch yn dda, gan ysgrifennu at Glerc y Gorfforaeth yn y naill goleg neu'r llall, neu llenwch ffurflen ar-lein. Dylech ddychwelyd eich sylwadau erbyn 31 Hydref, 2011 fan bellaf. Cewch fanylion pellach ar dudalen 21-23 y ddogfen hon.



**Cyngh. John B Bellis**

Cadeirydd y Llywodraethwyr  
Coleg Llandrillo Cymru



**Dr Griff Jones**

Cadeirydd y Llywodraethwyr  
Coleg Menai

# Foreword by the Chairs

This document has been jointly produced by Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Menai as part of a consultation process providing stakeholders with opportunities to comment on the proposed merger between the two colleges.

Both governing bodies have embraced the concept of merger within a group structure (Grŵp Llandrillo-Menai) with enthusiasm, as it will offer new opportunities which will bring significant benefits to learners, staff and communities across Central and North-West Wales. It will also safeguard the identities of two strong and successful colleges.

The creation of a new, stronger learning infrastructure will enable the colleges within the Grŵp to expand the education and training opportunities in their areas. The vision is to create an entity that builds on the strengths of its partners in a creative, innovative and flexible manner, and that also responds to the needs of the regional economy and to the aspirations of individuals and communities.

To create the Llandrillo-Menai Grŵp will involve the formal merger of two colleges, Coleg Llandrillo and Coleg Menai. Coleg Llandrillo eighteen months ago merged with Coleg Meirion-Dwyfor and it is the intention of the newly created Grŵp to deliver its services to the communities it serves utilising the names of the three colleges. In this way local identity will be preserved, whilst benefitting from the economies of scale to develop its corporate services and unifying structures. The intention is to build on the strengths of all partners for the benefit of the local area and the learners attending the colleges within the Grŵp.

Both Corporations believe that a merged college, therefore, will provide the highest quality post-16 education to prospective learners across Central and North-West Wales.

The vision is to be:

**A provider of excellent teaching and learning**

**An exemplar deliverer of bilingual education**

**An economic driver of the local economy**

**A hub for partnership working with Higher Education, schools and local communities**

To enable us to gauge opinions and consult in an open and transparent manner, we now invite your comments and views on this landmark merger proposal. All stakeholder feedback will be considered carefully, with the intention that they can help to inform future policy for the merged organisation.

Please use the form provided to write to the Clerk of the Corporation at either college, or fill in a form on-line, returning your comments by no later than 31st October, 2011. You will find more details on pages 22-23 of this document.



**Cllr. John B Bellis**

Chair of Corporation  
Coleg Llandrillo Cymru



**Dr Griff Jones**

Chair of Corporation  
Coleg Menai

# 1. Arolwg a Chyd-destun

- 1.1 Mae agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru wedi gosod her sylweddol i'r sector Addysg Bellach yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i gryfhau strwythurau lleol. Mae Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai eisoes wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her hon, Coleg Llandrillo drwy uno â Choleg Meirion-Dwyfor a chreu Consortiwm Dysgu yn y Gweithle a Choleg Menai drwy gymryd dwy asiantaeth Dysgu yn y Gweithle, Hyfforddiant Gwynedd a Hyfforddiant Môn dan ei adain.
- 1.2 Yn gynnar yn 2011, cytunodd Corfforaethau Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai i gynnal trafodaethau ffurfiol ac, ers hynny, bu'r ddau sefydliad yn edrych, gyda'i gilydd, ar y posibilrwydd o uno'r ddau goleg yn 2012.
- 1.3 Yn dilyn proses drwyadl ac ystyriaeth fanwl, cytunodd y ddwy Gorfforaeth i symud ymlaen i gomisiynu Cynllun Busnes ffurfiol ac astudiaeth ddichonoldeb gan ymgynghorwyr allanol yng Ngorffennaf 2011.
- 1.4 Mae'r ddwy Gorfforaeth wedi dechrau ar gyfnod o gynllunio er mwyn paratoi ar gyfer yr uniad arfaethedig. Cytunodd y Corfforaethau hefyd i symud ymlaen i'r cyfnod ymgynghori, gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynigion terfynol i'r ddwy Gorfforaeth fis Rhagfyr 2011.
- 1.5 Bydd y broses ymgynghori'n rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid allweddol, mewnol ac allanol, fynegi eu barn ar yr uniad arfaethedig a thrwy hynny, o bosibl, lywio cyfeiriad addysg a hyfforddiant yng Nghanolbarth a Gogledd-Orllewin Cymru yn y dyfodol.
- 1.6 Mae'r ddogfen hon yn gosod cefndir, sail resymegol a manteision posibl yr uniad arfaethedig, gan ddangos beth fydd arferion gweithio arfaethedig y sefydliad newydd.
- 1.7 Bydd y coleg unedig, o fewn y strwythur Grŵp, gyda'i fâs critigol sylweddol a'i gryfder ariannol, yn adeiladu ar gryfderau'r ddau sefydliad er mwyn cefnogi gweledigaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr agenda cyfrwng-Cymraeg/dwyieithog.
- 1.8 Mae'r weledigaeth, a rennir gan y ddau goleg, yn cynnwys creu sefydliad a fydd yn darparu cyfleoedd a phrofiadau ardderchog i ddysgwyr Addysg Bellach ac Uwch ar bob lefel. Bydd y weledigaeth

hefyd yn ehangu'n broses gynllunio fwy integredig a fydd yn cynnwys awdurdodau lleol, cymunedau a chyflogwyr, er mwyn adfywio'r economi a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

- 1.9 Mae Byrddau'r ddau goleg yn cefnogi'n frwd y cynigion hyn i uno.

# 2. Proffiliau'r Partneriaid sy'n Uno

## 2.1 Coleg Llandrillo Cymru

- 2.1.1 Mae Coleg Llandrillo Cymru yn goleg addysg bellach mawr a'i weithgareddau craidd yn gwasanaethu ardaloedd Conwy Sir Ddinbych a Gwynedd. Mae ei weithgareddau yn cynnwys darpariaeth addysg uwch sylweddol sy'n datblygu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Yn Ebrill 2010 cwblhawyd yr uniad â Choleg Meirion-Dwyfor i sefydlu'r coleg estynedig.
- 2.1.2 Mae'r Coleg yn cynnig darpariaeth ymhob maes dysgu, gan gynnwys campws diwydiannau'r tir ar safle Glynllifon. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys rhaglenni helaeth ar gyfer dysgwyr 14-19 oed, a gyflwynir o ganolfannau lleol a darpariaeth dysgu yn y gweithle a gyflwynir o fewn trefniant consortiwm.
- 2.1.3 Mae gan y Coleg broffil ansawdd ardderchog a chategori A ar gyfer ei lechyd Ariannol. Mae rhwydwaith y Coleg yn cynnwys 10 campws wedi eu lleoli'n strategol ar draws y tair sir y mae'r sefydliad yn eu gwasanaethu. Mae'r dimensiwn rhyngwladol (gan gynnwys recriwtio myfyrwyr o dramor) yn elfen bwysig o waith y Coleg.
- 2.1.4 Darparodd y Coleg ar gyfer 72,202 o gofrestrïadau yn 2010/11 a oedd yn cynrychioli 21,561 o fyfyrwyr. Mae'r nifer cofrestrïadau yn un o'r mwyaf yng Nghymru, gan gynnwys pob lefel o ddarpariaeth o lefel mynediad i addysg uwch.
- 2.1.5 Ar hyn o bryd mae Coleg Llandrillo Cymru yn cyflogi 1,434 o staff, 567 ohonynt yn llawn-amser. Yn 2010/11 roedd trosiant y Coleg yn £47 miliwn, gan sicrhau gweddillion gweithredol o £1.5 miliwn.
- 2.1.6 Gweledigaeth y Coleg yw darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf i'w gleientiaid amrywiol a hyrwyddo llwyddiant drwy ragoriaeth.

# 1. Overview and Context

- 1.1 The Welsh Government's Transformation agenda has posed significant challenges for the Further Education sector in Wales to work together to strengthen local structures. Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Menai have already responded to this challenge, Coleg Llandrillo by merging with Coleg Meirion-Dwyfor and creating a Work-based Learning Consortium, and Coleg Menai by taking over two Work-based Learning agencies, Hyfforddiant Gwynedd and Hyfforddiant Mon.
- 1.2 Early in 2011, Coleg Llandrillo Cymru and Coleg Menai's Corporations agreed to enter into formal discussions and, since then, the two institutions have been working together to look at the possibility of merging the two colleges in 2012.
- 1.3 Following a rigorous process and due consideration, the two Corporations agreed in July 2011 to commission a formal Business Plan and feasibility study by external consultants.
- 1.4 Both Corporations have entered a planning phase in preparation for the proposed merger. The two Corporations also agreed to move forward into a consultation phase with a view to presenting the final proposals to both Corporations in December 2011.
- 1.5 The consultation process will provide key stakeholders with the opportunity to express their views on the proposed merger and potentially shape the future direction of education and training in Central and North-West Wales.
- 1.6 This document sets out the background, rationale and potential benefits of the proposed merger, including an indication of the proposed working practices in the new organisation.
- 1.7 The merged college, within the Grŵp structure, with its enhanced critical mass and financial strength, will build on the strengths of the two organisations to support the Welsh Government's vision and policy, including the Welsh medium/bilingual agenda.
- 1.8 The vision shared by both colleges includes the creation of an organisation which will provide outstanding opportunities and experiences for learners at all levels of Further and Higher Education. The vision also extends to a more integrated planning process,

involving local authorities, communities and employers, in order to promote economic regeneration and ensure long term sustainability.

- 1.9 The Boards of both colleges enthusiastically support these merger proposals.


# 2. Profiles of the Merger Partners

- 2.1 **Coleg Llandrillo Cymru**
  - 2.1.1 Coleg Llandrillo Cymru is a large further education college, its core activities serving the area of Conwy and Denbighshire and Gwynedd. Its operations include a significant higher education provision which is developing in partnership with the University of Bangor. In April 2010 the merger with Coleg Meirion-Dwyfor was completed to establish the extended college.
  - 2.1.2 The College offers provision in all learning areas, including a land based campus on the Glynllifon site. Provision includes extensive 14-19 programmes which is delivered from local centres and work based provision which is delivered within a consortium context.
  - 2.1.3 The College has an excellent quality profile and has a Category A Financial Health categorisation. The College network includes 10 campuses that are strategically placed across the three counties served by the organisation. The international dimension (including the recruitment of overseas students) is an important part of the College's work.
  - 2.1.4 The College provided for 72,202 enrolments in 2010/11 representing 21,561 students. This enrolment base is one of the largest in Wales including all levels of provision from entry level to higher education.
  - 2.1.5 Coleg Llandrillo Cymru currently employs 1,434 staff, of which 576 are full-time. In 2010/11 the College turnover was £47 million, achieving a surplus on activity of £1.5 million.
  - 2.1.6 The College vision includes the delivery of outstanding education and training to its diverse client base and the promotion of success through excellence.

## 2.2 Coleg Menai

- 2.2.1 Mae Coleg Menai yn Goleg Addysg Bellach o faint canolog sy'n gwasanaethu ardaloedd Môn ac Arfon yn bennaf. Fe'i ffurfiwyd fel canlyniad i uniad llwyddiannus yn 1994 rhwng yr hen Coleg Gwynedd a Choleg Pencraig.
- 2.2.2 Mae'r Coleg yn cynnig rhaglenni dysgu ymhob Maes Dysgu (heblaw Diwydiannau'r Tir) o fewn tair ffrwd gwaith sef: darpariaeth 14-19, darpariaeth i gyflogwyr, gan gynnwys cytundeb Dysgu yn y Gweithle a chytundeb "Traineeship" sylweddol, ac Addysg Gymunedol
- 2.2.3 Mae'r Coleg yn darparu ar gyfer oddeutu 20,000 o gofrestrïadau'n flynyddol ac mae dysgwyr yn astudio ar gysiau o lefel Mynediad i lefel Addysg Uwch.
- 2.2.4 Mae'r Coleg yn cyflogi 573 o staff, ac mae ganddo drosiant blynyddol o £24 miliwn. Yn 2010/11, gwnaeth y Coleg weddill gweithredol o £1 miliwn.
- 2.2.5 Cenhadaeth Coleg Menai yw darparu addysg a hyfforddiant rhagorol.

## 3. Y Strwythur Newydd - Grŵp Llandrillo-Menai



- 3.1 Bu Corfforaethau Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Menai yn ystyried eu dewisiadau strategol dros y misoedd diwethaf, yn arbennig yn nhermau'r strwythur mwyaf addas ar gyfer y sefydliad unedig.
- 3.2 Roedd y ddwy Gorfforaeth yn awyddus i greu strwythur a fyddai'n adeiladu ar gryfderau'r ddau goleg a chreu endid a fyddai'n rhoi cyfeiriad strategol clir i addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghanolbarth a Gogledd Orllewin Cymru, ond heb gollir manteision o gynnal hunaniaeth gref yn lleol.
- 3.3 Ysgogodd y ffactorau hyn y ddwy Gorfforaeth i ystyried ffurfio Grŵp Llandrillo-Menai fel y strwythur mwyaf addas. Penodir Prif Weithredwr i arwain y Grŵp yn strategol a Phenathiaid i arolygu'r colegau sy'n rhan o'r Grŵp.

- 3.4 Cytunwyd y byddai strwythur Grŵp yn cynnig y canlynol:
  - Adeiledir ar llwyddiannau'r ddau goleg a chydabyddir eu brandiau unigryw
  - Cost isel, heb yr angen am broses ail-frandio sylweddol
  - Yn ddealladwy i'n cwsmeriaid presennol
  - Cedwir y partneriaid sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft gyda'r ysgolion uwchradd lleol
  - Gall staff uniaethu gyda chorff y maent eisoes yn ymroddedig iddo
  - Caniateir i'r gwahanol sefydliadau adlewyrchu'r gwahanol ddiwylliannau lleol o fewn eu dalgylchoedd
  - Gellir llunio cyfeiriad strategol clir a blaenoriaethu ar lefel Grŵp
  - Bydd yn gymharol hawdd ei gynllunio a'i weithredu.


## 4. Y Weledigaeth a'r Sail Resymegol

- 4.1 Prif amcan yr uniad arfaethedig yw sicrhau a datblygu ymhellach isadeiledd addysg ôl-16 o'r radd flaenaf yng Nghanolbarth a Gogledd-Orllewin Cymru.
- 4.2 Bydd creu Grŵp Llandrillo-Menai yn golygu ffurfio endid newydd gyda'r nodweddion canlynol:
  - Trosiant o oddeutu £70 miliwn, sef y coleg mwyaf yng Nghymru a'r mwyaf ond 3 yn y Deyrnas Unedig
  - Dalgylch eang yn ymestyn o'r Rhyd i Bwllheli, o Gaergybi i Ddolgellau
  - Sefydliad sy'n gwasanaethu 4 awdurdod lleol, sef Gwynedd, Môn, Dinbych a Chonwy
  - Dalgylch amrywiol iawn o safbwynt diwylliant, iaith a'r economi
  - Uniad unigryw o ddau goleg o ansawdd uchel, sy'n hyfyw yn ariannol ac sydd â gwasanaethau corfforaethol cryf
  - Atgyfnerthir ac adeiledir ar sail gyllidol gref.
  - Yn ymateb i weledigaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru.

## 2.2 Coleg Menai

- 2.2.1 Coleg Menai is a medium sized Further Education College which mainly serves the areas of Môn and Arfon. It was formed as the result of a successful merger which took place in 1994 between the former Coleg Gwynedd and Coleg Pencaraig colleges.
- 2.2.2 The College offers programmes in all Learning Areas (with the exception of Land-based Industries) within three workstreams i.e. 14-19 provision; employer provision, including substantial Work-based Learning and Traineeship contracts and Community Learning.
- 2.2.3 The College provides for approximately 20,000 enrolments annually and learners study on courses from Entry level to Higher Education.
- 2.2.4 The College employs 573 staff and has an annual turnover of £ 24 million. In 2010 -11 the College made an operating surplus of £ 1 million.
- 2.2.5 Coleg Menai's mission is to provide excellent education and training.

## 3. The New Structure - Grŵp Llandrillo-Menai



- 3.1 The Corporations of Coleg Llandrillo and Coleg Menai have been considering their strategic options over the past months, particularly in terms of the most appropriate structure for the merged organisation.
- 3.2 The two Corporations were eager to create a structure which would build on the strengths of the two colleges and create an entity which would give a clear strategic direction to post-16 education and training in Central and North West Wales, but without losing the advantages of maintaining a strong local identity.
- 3.3 These factors prompted the two Corporations to consider the formation of Grŵp Llandrillo-Menai as the most appropriate structure. A Chief Executive will be appointed to lead the Grŵp strategically and Principals will be appointed to oversee those colleges within the Grŵp.

- 3.4 It was agreed that a Grŵp structure will result in the following:

- Builds on the successes of the two colleges and recognises their unique brands
- Low cost without the need for a significant re-branding process
- Comprehensible to our present customers
- Retains partnerships already in place, e.g. with local secondary schools
- Staff identify with an organisation to which they are already committed
- Allows the different institutions to respond to the diverse local cultures within their catchment areas
- Clear overall strategic direction and prioritisation can take place at the Grŵp level
- Planning and implementation will be relatively simple.

## 4. Vision and Rationale

- 4.1 The overarching aim of the proposed merger is to secure and further develop a first class post-16 infrastructure in Central and North West Wales.
- 4.2 The creation of Grŵp Llandrillo-Menai will entail the formation of a new entity with the following characteristics:
- Turnover of around £70 million, which will be the largest college in Wales and the largest but three in the UK
  - A wide catchment area stretching from Rhyl to Pwllheli, from Holyhead to Dolgellau
  - An organisation that serves 4 local authorities i.e. Gwynedd, Môn, Denbigh and Conwy
  - A very diverse catchment area in terms of culture, language and economy
  - An unique merger of two high quality colleges, which are financially viable and have strong corporate services
  - Consolidating and building on a robust financial base
  - Responsive to the Welsh Government vision and policies.

**4.3** Fel gweledigaeth drosfwaol ar gyfer y sefydliad newydd, mae'r ddwy Gorfforaeth wedi cytuno gyda'r weledigaeth y dylai'r Grŵp fod:

- Yn ddarparwr addysgu a dysgu rhagorol
- Yn arloesol fel darparwr addysg ddwyieithog sy'n batrwm o ragoriaeth a gydnabyddir ar draws Ewrop
- Yn yrrwr economaidd i'r economi leol gyda rhwydwaith o Ganolfannau Rhagoriaeth galwedigaethol
- Yn ganolbwynt ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gydag AU, ysgolion a chymunedau.

## 5. Manteision Uno

**5.1** Bydd uno'r ddau sefydliad yn darparu màs critigol a sylfaen weithredol a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, a gwell cyfleoedd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Canolbarth a Gogledd-Orllewin Cymru.

**5.2** Mae'r ddau goleg wedi ymrwymo i gyflawni'r uniad mewn modd mor llyfn â phosibl, gan adeiladu ar gryfderau'r ddau sefydliad.

**5.3** Bydd y manteision yn cynnwys:

- Y gallu i ymateb i ystod eang ac amrywiol o ddysgwyr unigol
- Y cyfle i gydweithio er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant (NEET)
- Sicrhau gwell gyfleoedd i bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu
- Cydweithio i flaenoriaethu gweithredoedd i gefnogi'r economi ranbarthol, mentrau adfywio a gweithgareddau seiliedig ar waith i gyfarfod ag anghenion ardaloedd unigol
- Cyfle i ddatblygu darpariaeth alwedigaethol yn strategol i adlewyrchu anghenion ardaloedd lleol a'r rhanbarth. Bydd y ddarpariaeth hon yn gynhwysfawr gan gwmpasu Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle
- Cyfle i ddatblygu rhaglenni academaidd gan adeiladu ar arferion gorau. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth drydyddol a rhaglenni cydweithredol 14-19 mewn partneriaeth ag ysgolion lleol

- Cyfle i greu portffolio o raglenni Addysg Uwch gydlynol sy'n darparu dilyniant o'r ysgol neu Addysg Bellach ac i mewn i gyflogaeth yn lleol
- Cyfle i fanteisio ar ansawdd rhagorol y ddau goleg gan ledaenu'r arferion gorau ar draws y Grŵp
- Creu sefydliad ariannol a fydd yn darparu sylfaen gyflogaeth gadarn, a chyfleoedd clir i staff ddatblygu gyrfa
- Rhannu arbenigeddau a rhagoriaeth mewn addysgu, hyfforddi a chefnogi dysgwyr/cleientiaid gan roi'r dysgwr yn ganolog i bob dim a wnawn
- Gwneud y defnydd gorau posibl o arbenigedd staff, gan gyfoethogi diwylliannau llwyddiannus y ddau goleg mewn cyd-destun rhanbarthol newydd
- Y gallu i ddatblygu ymhellach ar ethos dwyieithog y sefydliadau gan ymestyn cyfleoedd Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn cadarnhau statws y Grŵp fel y prif ddarparwr addysg ddwyieithog a galwedigaethol, gan arwain rhwydwaith addysgu cenedlaethol
- Y gallu i gynnig am brosiectau refeniw a chyfalaf ar lefel ranbarthol, gan ddileu cystadleuaeth ddiangen rhwng sefydliadau a darparwyr
- Y gallu i fuddsoddi mewn ardaloedd lleol a chymunedau dysgu er mwyn ymateb i ddiffygion mewn sgiliau
- Cyfle i ddatblygu ymhellach ar ethos entrepreneuriaidd y ddau goleg a rhannu arbenigeddau mewn gwaith ymgynghorol a chefnogi busnes er budd yr economi ranbarthol
- Y gallu i gynnal systemau o atebolrwydd lleol sy'n adlewyrchu gwahaniaethau daearyddol, diwylliannol a nodweddion y boblogaeth mewn ardaloedd a wasanaethir gan y Grŵp
- Ymagwedd strategol a fydd yn golygu gweithio'n gydlynol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac ysbarduno datblygiadau mewn sectorau allweddol megis yr Ynys Ynni
- Sicrhau gwell adnoddau i ddatblygu addysg gymunedol ymhellach, gan ddarparu cyfleoedd mewn lleoliadau newydd
- Sicrhau arbedion maint drwy gyfuno gwasanaethau corfforaethol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i ddysgwyr a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

- 4.3** As an overarching vision for the new institution, both Corporations have agreed with the vision that the new Grŵp should be:
- A provider of excellent teaching and learning
  - An exemplar deliverer of bilingual education – recognised across Europe
  - An economic driver of the local economy with a network of vocational Centres of Excellence
  - A hub for partnership working with HE, schools and local communities.

## 5. Benefits of Merger

**5.1** The merger of the two institutions will provide a critical mass and operational base to ensure long term sustainability and enhanced learning opportunities across Central and North-West Wales.

**5.2** Both colleges are committed to making the merger happen in as seamless a way as possible, building on the strengths of both institutions.

**5.3** The benefits will include:

- The ability to respond to a wide and diverse range of individual learners
- Opportunities to collaborate to reduce the numbers of young people in the 16-18 age range not in employment, education or training (NEET)
- Development of enhanced opportunities for young people with learning difficulties
- Collaboration in the prioritisation of actions to support the regional economy, regeneration schemes and work-based activities to meet the needs of individual areas
- Opportunities to strategically develop vocational education to reflect the needs of localities and the region. Provision will be comprehensive, spanning Further Education and Work-based Learning
- Opportunities to develop academic programmes, building on best practice. This will include tertiary provision and collaborative 14-19 programmes in partnership with local schools
- Opportunities to build a portfolio of coherent Higher Education programmes which provide progression from school or Further Education and into employment locally
- Opportunities to build on the excellent quality of both colleges, disseminating the best practice across the Grŵp
- The development of a financially robust organisation providing a secure employment base with clear career development opportunities for staff
- Sharing of expertise and excellence in teaching, training and supporting learners/clients, placing the learner at the heart of what we do
- Optimising the use of staff expertise, and thereby enriching the successful cultures of both colleges in a new regional context
- The ability to further develop the bilingual ethos of the institutions, extending Welsh and bilingual opportunities. This will confirm the status of the Grŵp as the principal provider of vocational bilingual education, leading a network of providers nationally
- The ability to bid for revenue and capital projects at a regional level, removing unnecessary competition between organisations and providers
- The ability to invest in local areas and learning communities to respond to skills deficits
- Opportunities to further develop the entrepreneurial ethos of the two colleges and share expertise in consultancy work and business support in the interest of the regional economy
- The ability to develop systems of local accountability which reflect the differing geography, culture and population characteristics of the areas served by the Grŵp
- A strategic approach, which entails working coherently in partnership with other agencies to encourage developments in key sectors e.g. the Ynys Ynni (Energy Island)
- Ensuring better resources to further develop community-based learning, providing opportunities in new locations
- Achievement of economies of scale by the effective streamlining of corporate services to maximise the benefits to learners and make the best use of public funding.

## 6. Nodweddion y Sefydliad

**6.1** Bydd y ddau Goleg yn cyfrannu eu cryfderau a'u meysydd arbenigol i'r sefydliad newydd, a chaiff y rhain eu datblygu ymhellach.

### 6.2 Darpariaeth 14-19

**6.2.1** Bydd y sefydliad newydd yn parhau i ddarparu cwricwlwm llydan er mwyn cyfarfod ag anghenion dysgwyr dros ardal ddaearyddol eang.

**6.2.2** Bydd gan y sefydliad newydd gwricwlwm integredig er mwyn caniatáu ar gyfer atebolrwydd lleol a dilyniant rhwng gwahanol safleoedd.

**6.2.3** Bydd gan y sefydliad newydd strategaeth farchnata integredig a fydd hefyd yn hyrwyddo darpariaeth leol ac arbenigol.

**6.2.4** Bydd arbenigedd Coleg Llandrillo Cymru o safbwynt cyflwyno darpariaeth drydyddol yn werthfawr yn nalgylch Coleg Menai wrth i'r broses o drawsnewid addysg ôl-16 yn Arfon a Môn barhau. Adeiledir ar y cydweithrediad sydd eisoes yn bodoli wrth gyflwyno cwricwlwm ar y cyd â'r ysgolion lleol.

**6.2.5** Bydd cydweithio llawn rhwng colegau'r Grŵp wrth ymateb i anghenion NEET e.e. wrth gyflwyno'r cynllun "Traineeship" newydd, gan sicrhau dilyniant i'r garfan hon o ddysgwyr i mewn i gyrsiau Addysg Bellach neu Ddysgu yn y Gweithle.

**6.2.6** Bydd y sefydliad newydd yn parhau i gydweithio'n llawn o fewn y Rhwydweithiau 14-19 lleol. Bydd y strwythur Grŵp newydd yn cyfateb yn agos a Rhwydweithiau'r Awdurdod Addysg Lleol.

### 6.3 Ymgysylltu â chyflogwyr

**6.3.1** Rhagwelir y bydd y ddau frand ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr yn parhau yn y tymor canolig os nad yn hwy, gan sicrhau parhad yn y cysylltiadau lleol.

**6.3.2** Datblygir dull o gynllunio strategol ar gyfer prentisiaethau er mwyn sicrhau synergedd, darpariaeth gynhwysfawr (yn ddaearyddol ac o safbwynt gwahanol sectorau), tra'n osgoi dyblygu. Bydd hyn yn hyrwyddo cydweithio ar draws Ogledd-Orllewin Cymru ac yn arwain at ddarpariaeth fwy effeithlon tra'n sicrhau fod pob sector yn cael ei wasanaethu ond eto'n parhau i gynnig dewis i gyflogwyr.

**6.3.3** Bydd y gwasanaethau arbenigol a gynigir i gyflogwyr ar hyn o bryd yn cael eu marchnata gan y ddau endid sy'n

ymgysylltu â chyflogwyr gan ymestyn y cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ar draws Ogledd-Orllewin Cymru.

**6.3.4** Bydd maint y Grŵp newydd yn caniatáu ar gyfer datblygu mwy o wasanaethau arbenigol i ymateb i strategaeth datblygu economi'r ardal. Mae datblygiadau'r Ynys Ynni, yn arbennig, yn cynnig cyfleoedd cyffrous yn hyn o beth.

**6.3.5** Yn anad dim, gellir gwella'n sylweddol ar y gwasanaeth a gynigir i gyflogwyr gan hyrwyddo datblygiad economi Gogledd-Orllewin Cymru.

### 6.4 Gwasanaethu'r Gymuned

**6.4.1** Ar hyn o bryd, Coleg Menai sy'n cadeirio Partneriaeth Addysg Oedolion a Chymuned Gwynedd a Môn tra bo'r ddwy bartneriaeth yng Nghonwy a Dinbych yn cael eu cadeirio gan Goleg Llandrillo. Bydd y strwythur Grŵp yn caniatáu cydlynid gwell byth rhwng y partneriaethau hyn.

**6.4.2** Bydd arbedion maint yn caniatáu ar gyfer dyrannu arbenigeddau mwy sylweddol a phenodol i'r ffrwd gwaith hon.

**6.4.3** Cynigir mwy o gyfleoedd i rannu syniadau ac arfer da ar draws pob rhanbarth o fewn meysydd darparu.

**6.4.4** Drwy gadw atebolrwydd lleol o fewn y strwythur Grŵp, gellir sicrhau y gwasanaethir anghenion gwahanol gymunedau yn fwy effeithiol.

### 6.5 Dwyieithrwydd a'r ethos Cymreig

